Eluned Morgan AS/MS
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SeneddDGCh@senedd.cymru

28 Mai 2020

Annwyl Helen,

Mewn Datganiad Ysgrifenedig i Aelodau'r Senedd ar 16 Mawrth nes i gadarnhau fy mod yn lansio ymgynghoriad ar fersiwn ddafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8). Nodais yn y datganiad fy mod yn ymwybodol fod ein holl randdeiliaid o dan gryn straen a'u bod yn wynebu cyfnod o ansicrwydd oherwydd y sefyllfa bresennol o ran Covid-19, ac y byddai dyddiad cau'r ymgynghoriad yn cael ei adolygu.

Mae'r sefyllfa o ran Covid-19 yn parhau, felly rwyf wedi penderfynu ymestyn dyddiad cau y broses ymgynghori tan 2 Hydref 2020 yn hytrach na 15 Mehefin. Mae arferion gwaith pob corff wedi'u hamharu'n sylweddol dros y misoedd diwethaf felly byddai ond yn deg ymestyn yr ymgynghoriad i ganiatáu digon o amser i'r holl randdeiliaid ystyried y Rheoliadau drafft. Mae rhai o'r rheoleiddwyr iechyd a fyddai'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau wedi dod o dan bwysau ychwanegol oherwydd yr angen i gofrestru mwy o ymarferwyr yn ystod yr ymateb i Covid-19, a bu rhaid iddynt baratoi canllawiau ar gyfer eu hymarferwyr. Gofynnais i'r cyrff hyn hefyd gyflwyno gwybodaeth i ganiatáu inni baratoi asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Rheoliadau pan oeddent yn cael eu gosod yn y Senedd. Teimlaf, felly, bod rhaid i mi sicrhau eu bod yn cael digon o amser i ystyried y Rheoliadau a chasglu gwybodaeth gadarn.

Byddaf yn rhoi gwybod i'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau am y newid hwn ac yn diweddaru'r wefan. Byddaf yn cadw golwg ar y dyddiad hwn ac yn rhoi diweddariad i chi os bydd y sefyllfa'n galw am newid pellach.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.